Astudiaethau achos y sector cyhoeddus:

Ysgolion
Mae Ysgol Uwchradd Llandrindod wedi gosod system wresogi biomas sy'n llosgi deunyddiau organig. Trefnodd yr Ymddiriedolaeth Garbon yng Nghymru 'ymweliad enghreifftiol' er mwyn i bobl sy'n gwneud penderfyniadau weld drostynt eu hunain sut y gall gosod systemau sy'n cael eu hynni o ffynhonnell adnewyddadwy dorri i lawr ar ollyngiadau carbon.

Addysg Uwch
Ar hyn o bryd mae gan Brifysgol Morgannwg dyrbin dŵr a dau dyrbin gwynt ar raddfa fechan. Mae'r Brifysgol hefyd wedi cwblhau arolwg o'r gwynt ac yn edrych ar y posibiliadau o osod cynhyrchydd trydan gwynt ar ddau floc preswyl er mwyn cynhyrchu oddeutu 2KW yr un. Bydd hyn yn treialu'r posibiliadau o osod tyrbinau gwynt bychan mewn safleoedd eraill yn y dyfodol.

Ystadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru
Mae bwyleri biomas i ddarparu gwres a dŵr poeth yn cael eu gosod yn yr ysbytai newydd sy'n cael eu hadeiladu yn Llwynypia a Gogledd Meirionnydd. Mae'r rhain yn osodiadau mawr o 880kW ar safle Gogledd Meirionnydd ac oddeutu 1.3MW ar safle Llwynypia. Credir y bydd hwn y mwyaf yng Nghymru ac un o'r rhai mwyaf yn y Deyrnas Unedig.

Awdurdod Lleol

Cyngor Sir y Fflint
Mae Tîm Ynni wedi cael ei sefydlu yn cynnwys 5 swyddog llawn amser ynghyd â Rheolwr Ynni sy'n gyfrifol am weithredu'r cynllun gweithredu ynni. Mae'r tîm yn cynnwys y swyddog HECA y mae ei gyfrifoldebau'n cwmpasu pob agwedd sy'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd ynni domestig, tlodi tanwydd a materion iechyd a lles sy'n gysylltiedig ag ynni.

Ymhlith nifer o lwyddiannau eraill, dyrannwyd arian i'r Tîm Ynni ar gyfer mesuriadau gwelliant a arweiniodd at arbedion ariannol a amcangyfrifir yn £55,000 y flwyddyn trwy leihau maint yr ynni a ddefnyddir, gan adennill y gwariant mewn ychydig o dan 5 mlynedd.

Ar sail y dystiolaeth hyd yma, mae'r Cyngor o'r farn y bydd rhoi adnoddau i dîm ynni arbenigol fel hyn yn sicrhau bod y gorfforaeth yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni.

Oherwydd y risg ariannol a allai ddeillio i'r Awdurdod oherwydd cynyddu costau ynni, ac oblygiadau amgylcheddol y newid yn yr hinsawdd, mae ynni erbyn hyn yn ystyriaeth bwysig wrth ddatblygu polisïau'r Cyngor at y dyfodol.

Ystâd Llywodraeth Cynulliad Cymru

Merthyr Tudful
Mae adeilad newydd Llywodraeth y Cynulliad ar y ffordd i ennill dyfarniad o ragoriaeth BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) am ddatblygu cynaliadwy.

Mae dyluniad yr adeilad yn cynnwys deunyddiau adeiladu cynaliadwy megis coed o ffynonellau dan reolaeth y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd, ailgylchu defnyddiau adeiladu gwastraff a defnyddio llafur a chadwynau cyflenwi lleol lle bynnag y bo modd.

Mae'r gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus yn cynnwys arosfan bws newydd o fewn 500m i'r swyddfa, gwell gwasanaeth bws yn gwasanaethu Merthyr a Chaerdydd, a fydd yn rhedeg bob 15 munud, trafodaethau parhaus gyda Threnau Arriva er mwyn cael y gwasanaeth trenau i redeg yn amlach, rhannu ceir a chynlluniau seiclo.